Gwilym Bowen Rhys

Y CYLCHGRAWN CERDDORIAETH CRYNO AR GYFER PLANT BLYNYDDOEDD 5–8 • RHIFYN 8 • HYDREF 2021

Y SELAR BACH

Croeso i rifyn diweddaraf y Selar Bach!

Mae'r hydref wedi cyrraedd, a phawb yn falch iawn i fod nôl yn yr ysgol gyda'ch ffrindiau mae'n siŵr.

Er bod y dail yn cwympo o'r coed a'r tywydd bach mwy diflas, mae digon o hwyl i'w gael dros yr hydref gyda **Chalan Gaeaf**, **noson tân gwyllt** a diwrnod **Shwmae Su'mae**!

Ac yn arbennig ar gyfer diwrnod **Shwmae Su'mae** eleni rydyn ni'n dod â gig diweddaraf y **Selar Bach** i sgriniau eich dosbarth ysgol.

Gwilym Bowen Rhys sy'n perfformio yn ein gig rhithiol diweddaraf – cerddor sydd wedi mynd o ganu roc gyda'r band poblogaidd, **Y Bandana**, i ganu gwerin yn bennaf ar ben ei hun. Nid gwerin hen ffasiwn cofiwch, ond gwerin gyda gwahaniaeth.

Darllenwch y rhifyn yma o'r **Selar Bach** i ddysgu mwy am Gwil, ac fel arfer i glywed hefyd am newyddion diweddaraf y sin gerddoriaeth Gymraeg.

Joiwch **Y Selar Bach**, a joiwch y gig rhithiol!

BAND Y RHIFYN



Gwilym Bowen Rhys

FFEIL O FFEITHIAU

AELODAU: Gwilym Bowen Rhys (a Patrick Rimes yn y gig rhithiol)
O BLE: Bethel, ger Caernarfon
FFURFIWYD: Dechrau fel artist unigol tua 2015
RECORDIAU: O Groth y Ddaear (albwm 2016), Detholiad o Hen Faledi I (albwm 2018), Arenig (albwm 2019).

UCHAFBWYNTIAU:
- Ennill gwobr 'Artist Unigol Gorau' yng Ngwobrau Gwerin Cymru 2019.
- Rhestr fer Artist Unigol Gorau Gwobrau Gwerin BBC Radio 2 yn 2019.
- Perfformio gigs yn yr Ariannin, Iwerddon, Yr Alban, Cernyw, Galisia a Gwlad y Basg.
- Cyrraedd rownd derfynol Cân i Gymru ddwywaith gyda chaneuon wedi eu hysgrifennu gyda'i fam, Siân.
- Ennill gwobr 'Band Gorau' Gwobrau'r Selar gyda'r Bandana 4 gwaith!

FFEITHIAU DIDDOROL:
- Ffurfiodd Gwilym ei fand Y Bandana yn 2007, pan oedd yn 14 oed, ac fe ddaethon nhw i fod yn un o fandiau mwyaf poblogaidd Cymru.
- Chwalodd Y Bandana yn 2016, ond enillodd y grŵp 4 o Wobrau'r Selar ar ôl hynny – y tro cyntaf i grŵp oedd ddim yn bodoli ennill!!
- Roedd Gwilym yn arfer actio cymeriad Dafydd ar gyfres deledu Rownd a Rownd.
- Mae Gwilym hefyd yn aelod o'r grŵp Plu gyda'i ddwy chwaer, Elan a Marged.
- Mae wedi hyfforddi yn y grefft o wneud 'clogs' (esgidiau pren traddodiadol) gan gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn 2016.
- Roedd ei dad, Rhys Harries, yn aelod o'r grŵp enwog o'r 1970au, Trwynau Coch

RHESTR CHWARAE:
- *Clychau'r Gog*
- *Ben Rhys*
- *Byta Dy Bres*
- *Dŵr Tryweryn*
- *Garth Celyn*

GEIRFA

EP ('Extended Play') – record fer, tua 4 i 6 cân fel arfer
Noddi – sponsor
Uchafbwyntiau – highlights
Band pres – brass band
Albwm (weithiau LP 'Long Play') – record hir, tua 10 cân neu fwy fel arfer

5 CÂN I WRANDO ARNYN NHW

Traeth y Bore – Sywel Nyw gydag Endaf Emlyn

Cell – Mr Phormula

Ci – Derw

Arbed Dy Gariad – Tapestri

Llyn Llawenydd – Papur Wal

5 UCHAF Y SELAR

Dyma'r 5 band sydd wedi dal sylw **Y Selar** yn ddiweddar.

1. N'famady Kouyaté Cerddor o Guinea Conarkry yn wreiddiol, ond sy'n byw yng Nghaerdydd erbyn hyn. Mae wedi ***rhyddhau ei EP Aros i Fi Yna*** yn ddiweddar.

2. Leri Ann Cantores o Lan Ffestiniog, sydd newydd ***ryddhau ei EP cyntaf***. Mae Leri hefyd yn actores sydd wedi bod ar gyfres Rownd a Rownd.

3. Band Press Llareggub Dyma fand pres modern a gwahanol iawn i'r hyn fyddwch chi'n gweld ar lwyfan eisteddfod! Maen nhw newydd ryddhau ***albwm newydd***, sy'n fersiwn gwahanol iawn o albwm y Big Leaves, 'Pwy Sy'n Galw?'

4. Sister Wives Band Cymraeg o Sheffield yn Lloegr! ***Ie, wir i chi***. Maen nhw newydd recordio sesiwn ar gyfer cyfres 'Ar Dâp' i S4C.

5. Sywel Nyw Prosiect Lewys Wyn, sef prif ganwr Yr Eira. Mae'n rhyddhau sengl bob mis yn 2021, gan gyd-weithio gyda cherddor gwahanol bob tro. Mae wedi rhyddhau ***naw cân hyd yn hyn***.

Label recordiau Yws Gwynedd yn noddi tîm pêl-droed merched

Bydd label **Recordiau Côsh** yn noddi crysau tîm pêl-droed Merched Bethel ar gyfer y tymor 2021/22.

Dyma'r ail waith i'r label, sy'n cael ei redeg gan y cerddor a chyn bêl-droediwr Yws Gwynedd, noddi'r tîm a bydd logo Côsh yn cael ei weld ar gaeau pêl-droed y gogledd dros y tymor.

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 bod Côsh yn noddi'r tîm, ond yn anffodus daeth y clo mawr yn syth wedyn gan olygu nad oedd llawer o gyfle i'r merched chwarae yn eu crysau newydd.

Nawr mae Côsh wedi cytuno i noddi'r tîm eto ar gyfer y tymor 2021/22 ac roedd y merched yn gwisgo'r crysau am y tro cyntaf yn ei gêm oddi-cartef yn erbyn Airbus UK yn yr 'Adran North' ym mis Medi. Enillodd Bethel y gêm 5-1.

CIC ABOWT GYDAG YWS

"Fel clwb rydym yn werthfawrogol iawn i Ywain a Recordiau Côsh am noddi tîm pêl-droed y merched ac mae'r gefnogaeth yn golygu llawer i ni fel tîm" meddai Gwenno Gibbard Bolton, capten y tîm.

"Mi ddoth Ywain draw i gael llun gyda'r tim a'r kit, a mi arosodd am kick about bach gyda'r Merched, roedd pawb wrth eu boddau!"

Mae Yws yn bêl-droediwr da iawn ei hun – mae wedi chwarae i nifer o dimau dros y blynyddoedd gan gynnwys Porthmadog a Chaernarfon yn Uwch Gynghrair Cymru.

Mae'n awyddus felly i gefnogi pêl-droed lleol, ac fe neidiodd ar y cyfle i helpu Merched Bethel.

"Dwi'n hapus i helpu pêl-droed grassroots mewn unrhyw ffor fedrai a ma'n wych bod Bethel yn cynghrair Adran North flwyddyn yma.

"Dwi'n edrych ymlaen i gael mynd i weld y kit mewn gêm byw yn fuan ar ôl cyfarfod y chwaraewyr mewn sesiwn hyfforddi yn ddiweddar – ma nhw'n griw da a hwyliog a dwi'n falch bo nhw'n arddangos logo Recordiau Côsh."

*Ym mhob rhifyn o'r **Selar Bach** rydyn ni'n holi disgyblion o ysgolion gwahanol am y gerddoriaeth Gymraeg maen nhw'n ei mwynhau.*

SELAR YN GIGIO YN... YSGOL GYNRADD EGLWYSWRW

Enw: Glain
Hoff fand Cymraeg: Elin Fflur a'r Band
Hoff gân Gymraeg: 'Harbwr Diogel' – Elin Fflur
Lle fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth? Yn y gwely'n ymlacio, neu yn y car
Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Eden, Rhys Gwynfor, Tocsidos Blêr

Enw: Guto
Hoff fand Cymraeg: Mr Phormula
Hoff gân Gymraeg: 'Heulwen o Hiraeth' – Al Lewis
Lle fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth? Yn y car a disgôs yn y tŷ
Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Band Pres Llareggub, Mr Phormula ac Al Lewis

Enw: Enlli
Hoff fand Cymraeg: Eden
Hoff gân Gymraeg: 'Esgair Llyn' – Dafydd Iwan
Lle fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth? Yn yr ardd, yn y car ac amser golchi llestri!
Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Dewi Pws, Gwibdaith Hen Frân a Bromas

Enw: Cecil
Hoff fand Cymraeg: Mega
Hoff gân Gymraeg: 'Coffi Du' – Gwibdaith Hen Frân
Lle fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth? Yn y gegin ac amser godro
Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Mega, Gwilym ac Yws Gwynedd

Enw: Anna
Hoff fand Cymraeg: Plethyn
Hoff gân Gymraeg: 'Meillionen' – Big Leaves
Lle fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth? Yn y car ac yn fy ystafell wely pan yn arlunio
Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Gwenno, Mared a The Gentle Good

Enw: Sebastian
Hoff fand Cymraeg: Rhys Gwynfor
Hoff gân Gymraeg: 'Bydd Wych' – Rhys Gwynfor
Lle fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth? Yn fy ystafell wely
Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di? Rhys Gwynfor, Y Bandana ac Ail Symudiad

Os hoffai eich dosbarth chi ateb cwestiynau **Selar yn gigio...** anfonwch neges: ***post@selar.cymru***

Rhagor am gerddoriaeth Gymraeg

Gwefan Y Selar

Blog Sôn am Sîn

Sianel YouTube Lŵp

Rhaglenni Radio Cymru

*Os hoffai eich dosbarth chi ateb cwestiynau **Selar yn gigio**, anfonwch neges – **yselar@live.co.uk***